# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 –2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Grant Busnes i Ffermydd

Mae'r **Cynllun Grant Busnes i Ffermydd** yn becyn cymorth grant cyfalaf, i helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

Mae'n cynnig grant sefydlog tuag at offer a pheiriannau sydd wedi'u nodi a'u prisio ymlaen llaw fel rhai sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i fusnesau fferm.

Y grant lleiaf sydd ar gael yw £3,000 a'r mwyaf sydd ar gael yw £12,000.

**Mae grant ar gael ar gyfer eitemau o dan y pum thema isod:**

- Geneteg, Perfformiad ac Iechyd Anifeiliaid
- Rheoli Cnydau
- Defnyddio Adnoddau'n Effeithiol
- Defnyddio Ynni'n Effeithiol
- TGCh


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Pwy sy’n cael gwneud cais?**

Er mwyn i fusnes gael gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd, rhaid bodloni pob un o’r isod:

- Bydd ganddo o leiaf 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru;
- Yn gweithio o leiaf 550 o oriau llafur safonol y flwyddyn;
- Cyfeirnod Cwsmer (CRN);
- Rhif Daliad (CPH);
- Cyfeirnod Cyswllt Ffermio (Rhif BAS FC).

Rhaid i o leiaf un o bartneriaid y busnes, fel y maent wedi’u nodi gan Cyswllt Ffermio a Llywodraeth Cymru, fynd i un o ddigwyddiadau ‘Ffermio i’r Dyfodol’ Cyswllt Ffermio.

Diben y daflen hon yw rhoi cyflwyniad cyffredinol i chi o’r Cynllun Grant Busnes i Ffermydd. Nid yw’n cymryd lle Canllawiau’r Cynllun, na’r Ffurflen Gais. Dylai darpar ymgeiswyr ddarllen y manylion llawn sydd ar gael yn:

[https://llyw.cymru/grant-busnes-i-ffermydd](https://llyw.cymru/grant-busnes-i-ffermydd)

Y grant mwyaf y gellir ei gynnig i unrhyw fusnes yw £12,000, waeth beth yw maint y busnes na’i leoliad yng Nghymru.

Ni chaiff grant ei dalu i fusnesau sydd â throsiant blynyddol gros o fwy nag £1 miliwn.

Caiff busnesau fferm wneud cais mewn mwy nag un cyfnod ymgeisio.

Bydd busnesau fferm wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio cyn cael gwneud cais.

Mae’n broses gystadleuol.  Bydd pob cais yn cael sgôr ac yn cael eu rhoi yn eu trefn a’u dewis nes bod yr holl arian wedi’i neilltuo.

Bydd Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi manylion y cyfnodau ymgeisio ar ei gwefan ac ar Gwlad Ar-lein.

OGL WG29117 © Crown Copyright 2016